

## Isetholiad Senedd y DU

# Canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid

## Rhan 1 o 6 - Ydych chi'n gallu sefyll mewn etholiad?

Tachwedd 2017

Mae'r ddogfen hon yn berthnasol i isetholiadau Senedd y DU ym Mhrydain Fawr. Mae ein canllawiau a'n hadnoddau ar gyfer etholiadau eraill yn y DU i'w cael ar ein gwefan: <http://www.electoralcommission.org.uk/cymru/i-am-a/candidate-or-agent>.

# Cynnwys

Cymwysterau sefyll mewn etholiad .....	2
Gwaharddiadau .....	3
Swyddi gwaharddedig.....	3
Swyddi anghymharus.....	4
Methdaliad .....	4
Carcharu a phenderfyniadau'r llys.....	4
Sefyll mewn mwy nag un etholaeth.....	5

# Allwch chi sefyll mewn etholiad?

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys ein canllawiau ar p'un allwch chi sefyll fel ymgeisydd mewn isetholiad Senedd y DU ai peidio.

Yn y ddogfen hon, rydym yn defnyddio 'chi' i gyfeirio at yr ymgeisydd. Rydym yn defnyddio 'rhaid' wrth gyfeirio at ofyniad penodol. Rydym yn defnyddio 'dylech/dylid' ar gyfer eitemau yr ystyriwn i fod yn arfer da, ond nad ydynt yn ofnion cyfreithiol neu rheoleiddiol.

Rydym wedi cynnwys y dyddiadau cau generig drwy gydol y ddogfen i roi syniad i chi o'r amseriad ar gyfer digwyddiadau allweddol. Fodd bynnag dylech allu cael copi o'r amserlen penodol ar arfer yr isetholiad dan y Swyddau Canlyniadau

Rydym ni yma i helpu, felly cysylltwch â'ch tîm lleol y Comisiwn os oes gennych unrhyw gwestiynau. Mae ein manylion cyswllt ar ein [dogfen trosolwg](#).

Daeth deddfwriaeth diogelu data newydd i rym o 25 Mai 2018, a bydd yn berthnasol i brosesu holl ddata personol.

Cysylltwch â [Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#) am fwy o wybodaeth ynghylch sut mae'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yn effeithio arnoch chi.

## Cymwysterau sefyll mewn etholiad

1.1 I allu sefyll fel ymgeisydd mewn isetholiad Senedd y DU ym Mhrydain Fawr, mae'n rhaid i chi, ar y diwrnod y cewch eich enwebu ac ar y diwrnod pleidleisio, fod:

- yn 18 mlwydd oed neu'n hŷn, ac
- yn ddinesydd Prydeinig, yn ddinesydd Gweriniaeth Iwerddon neu yn [ddinesydd cymwys y Gymanwlad](#)

1.2 Nid yw dinasyddion gwledydd eraill (gan gynnwys aelod-wladwriaethau'r UE heblaw'r DU, Gweriniaeth Iwerddon, Cyprus a Malta) yn gymwys i fod yn Aelod o Senedd y DU.

Dinesydd **cymwys** y Gymanwlad yw dinesydd y Gymanwlad sy'n bodloni un o'r canlynol:

- does dim angen caniatâd i ddod i mewn i neu aros yn y Deyrnas Uniedg, neu
- bod caniatâd penagored i aros yn y Deyrnas Uniedg

1.3 Does dim gofyniad cyfreithiol i chi fod yn etholwr cofrestredig yn y DU.

## Gwaharddiadau

1.4 Heblaw am fodloni'r cymwysterau ar gyfer sefyll mewn etholiad, mae'n rhaid i chi hefyd beidio â bod wedi eich gwahardd rhag sefyll adeg eich enwebu nac ar ddiwrnod yr etholiad.

Mae'r holl ystod o waharddiadau yn gymhleth, ac os oes unrhyw amheuaeth p'un a ydych wedi'ch gwahardd, rhaid i chi wneud y cwbl allwch chi i sicrhau nad ydych wedi'ch gwahardd cyn cyflwyno eich papurau enwebu. Mae'n rhaid i chi fod yn sicr nad ydych wedi'ch gwahardd gan y gofynnir i chi lofnodi un o'r papurau enwebu gofynnol i gadarnhau nad ydych wedi'ch gwahardd. Mae'n drosedd gwneud datganiad ffug ar eich papurau enwebu ynghylch eich cymhwyster i gael eich ethol, felly os oes unrhyw amheuaeth, dylech gysylltu â'ch cyflogwr, edrych ar y ddeddfwriaeth ac, os oes angen, cael cyngor cyfreithiol eich hun. Ni fydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn gallu cadarnhau p'un a eich bod wedi'ch gwahardd ai peidio.

## Swyddi gwaharddedig

1.5 Mae deiliaid rhai swyddi wedi'u gwahardd rhag bod yn Aelod Seneddol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- gweision sifil
- aelodau'r lluoedd heddlu
- aelodau'r lluoedd arfog
- cyfarwyddwyr cwmnïau masnachol a benodir gan y llywodraeth
- barnwyr
- aelodau o ddeddfwrfeydd unrhyw wlad neu diriogaeth tu allan i'r Gymanwlad
- arglwyddi sy'n eistedd yn ac yn gallu pleidleisio yn Nhŷ'r Arglwyddi

Cyhoeddir deddfwriaeth y DU gan yr Archifau Cenedlaethol ac mae ar gael yn

[www.legislation.gov.uk](http://www.legislation.gov.uk)

Fodd bynnag, ar adeg ysgrifennu, roedd newidiadau i'w gwneud nad ydynt wedi'u gwneud eto gan dîm golygyddol [legislation.gov.uk](http://legislation.gov.uk) i Ddeddf Gwahardd Tŷ'r Cyffredin 1975. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, ceisiwch gyngor cyfreithiol annibynol

# 4

- esgobion Eglwys Lloegr (a adnabyddir fel Arglwyddi Ysbrydol) sydd â hawl eistedd a phleidleisio yn Nhŷ'r Arglwyddi

## **1.6 Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, mae rhestrau manwl o swyddi gwaharddedig wedi'u gosod yn y Ddeddf Gwahardd Tŷ'r Cyffredin 1975 (fel y'i diwygiwyd).**

### Swyddi anghymharus

1.7 Nid yw bod yn Aelod o Senedd Ewrop yn gymharus gyda bod yn Aelod o Senedd y DU.

### Methdaliad

1.8 Nid yw bod yn fethdalwr yn ei hun yn waharddiad. Fodd bynnag rydych wedi'ch gwahardd:

- os ydych yn destun gorchymyn cyfyngu methdaliad neu orchymyn cyfyngu rhyddhau dyled gan lys yng Nghymru neu Loegr, neu Ogledd Iwerddon, neu
- os yw eich eiddo wedi'i atafael gan lys yn yr Alban ac nad ydych wedi'ch rhyddhau, neu

1.9 Os yw person wedi'u barnu'n fethdalwr gan lys yng Nghymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon, neu os ydynt yn destun gorchymyn cyfyngu methdaliad interim, nid ydynt wedi'u gwahardd ar y sail honno cyn belled â nad ydynt hefyd bellach yn destun unrhyw un o'r gwaharddiadau methdaliad penodol a restrir uchod.

### Carcharu a phenderfyniadau'r llys

1.10 Rydych wedi'ch gwahardd yn unol â Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1981 os ydych wedi'ch cael yn euog o drosedd, ac wedi'ch dedfrydu i'ch carcharu neu'ch cadw yn y ddalfa am fwy na blwyddyn a'ch bod wedi'ch carcharu unrhyw le yn y DU, Gweriniaeth Iwerddon, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw, neu eich bod yn anghyfreithlon yn rhydd.

1.11 Mae enwebu person sydd wedi'u gwahardd ar y sail hon yn ddi-rym a bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn gwrthod eu papur enwebu.

1.12 Rydych hefyd wedi'ch gwahardd yn unol â Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (fel y'i diwygiwyd), os ydych wedi'ch cael yn euog neu wedi'ch adrodd yn euog o arfer etholiadol llwgr neu anghyfreithlon neu o drosedd mewn perthynas â rhoddion. Mae'r gwaharddiad oherwydd arfer anghyfreithlon yn cychwyn o'r dyddiad mae person wedi ei adrodd yn euog gan lys etholiadau neu ei gael yn euog ac yn para am dair blynedd. Mae'r gwaharddiad ar gyfer arfer llwgr yn cychwyn o'r dyddiad y mae person wedi ei adrodd yn euog gan lys etholiadau neu ei gael yn euog ac yn para am bum mlynedd

## Sefyll mewn mwy nag un etholaeth

1.13 Ni allwch sefyll mewn mwy gan un etholaeth os oes mwy nag un isetholiad Senedd y DU yn cael ei chynnal ar yr un diwrnod.